



CANLLAWIAU

# **Cod ar yr Arferion a Argymhellir o ran Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol**

Cyhoeddwyd gyntaf: Mawrth 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: Mawrth 2022

# Cynnwys

Statws y Cod ac i bwy y mae'n gymwys

---

Pam cael Cod?

---

Cwmpas y Cod

---

Pwnc

---

Costau

---

Cynnwys ac arddull

---

Lledaenu gwybodaeth

---

Hysbysebu

---

Hysbysebu i recriwtio

---

Cynghorwyr unigol

---

Adroddiadau blynyddol cynghorwyr

---

Ffilmio a darlledu cyfarfodydd cynghorau

---

Etholiadau, refferenda a deisebau

---

Cymorth i eraill ar gyfer cyhoeddusrwydd

---

# Statws y cod ac i bwy y mae'n gymwys

1. Cyhoeddwyd y Cod hwn gan Weinidogion Cymru yn unol â'u pwerau o dan adran 4(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1986. Cafodd y Cod ei ddiwygio ddiwethaf yn 2014 ac mae'r fersiwn hon wedi'i diwygio ymhellach yn dilyn ymgynghori gyda phartïon â diddordeb mewn llywodraeth leol fel sy'n ofynnol o dan adran 4(4) o'r Ddeddf. Mae adran 4(1) o'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i'r Cod wrth wneud unrhyw benderfyniad am gyhoeddusrwydd.

2. Mae'r Cod hwn yn gymwys i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau tref a chymuned (Adran 6(2)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1986) ac awdurdodau parciau cenedlaethol (Deddf yr Amgylchedd 1995 Adran 65(7), Atodlen 8, Paragraff 9) yng Nghymru. Mae'r Cod yn gymwys hefyd i gyd-bwyllgorau corfforedig yn rhinwedd adran 6(2) o Ddeddf 1986, sy'n cynnwys "any authority, board or committee which discharges functions which would otherwise fall to be discharged by two or more such authorities".

3. Defnyddir y term 'awdurdodau lleol neu awdurdodau' drwy gydol y canllawiau hyn fel term cyfunol. 'Defnyddir 'prif gyngor' os cyfeirir yn benodol at gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol a defnyddir 'cynghorau tref a chymuned' os cyfeirir yn benodol at y cyrff hynny. Yn yr un modd, defnyddir 'awdurdod parc cenedlaethol' wrth gyfeirio'n benodol at y categori hwnnw o gorff.

## Awdurdodau Tân ac Achub

4. Nid yw Awdurdodau Tân ac Achub yn awdurdodau lleol at ddibenion adran 6(2)(a) o Ddeddf 1986, felly nid yw'r Cod hwn yn gymwys iddynt yn yr un modd ag y mae'n gymwys i'r cyrff hynny a restrir ym mharagraff 2 uchod. Nid yw'n ofynnol yn ôl statud i Awdurdod Tân ac Achub roi sylw i'r Cod hwn wrth wneud unrhyw benderfyniad am gyhoeddusrwydd. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion cyffredinol sy'n llywodraethu'r defnydd o gyhoeddusrwydd yr un fath ar gyfer unrhyw gorff cyhoeddus, ac rydym yn argymhell y cod hwn i Awdurdodau Tân ac Achub yn y cyd-destun hwnnw. At hynny, mae eu trefniadau llywodraethu gwahanol a'u cylch gwaith culach yn golygu na fydd rhai o'r materion yn y Cod hwn yn berthnasol iddynt, o bosibl – er enghraifft materion yn ymwneud ag etholiadau.

5. Mae adran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub gymryd camau i atal tanau a hyrwyddo diogelwch tân. Bydd hynny'n aml iawn yn golygu defnyddio cyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth o risgiau tân, ac i hyrwyddo newid mewn ymddygiad. Er bod yr egwyddorion yn y Cod hwn yn dal yn berthnasol i hynny, mae'n bwysicach fod cyhoeddusrwydd o'r fath yn adlewyrchu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub, a gwybodaeth am risgiau tân penodol a sut i'w lliniaru.

## Pam cael Cod?

6. Mae prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned yn atebol yn ddemocrataidd i'w hetholwyr. Bydd hyn yn cael ei hybu wrth i'r awdurdodau lleol esbonio eu hamcanion a'u polisïau i'w cymunedau. Mae awdurdodau parciau cenedlaethol wedi'u cyfansoddi'n wahanol, a'u haelodau yw cynrychiolwyr y prif gynghorau ac aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru. Er hynny, maent yn darparu gwasanaethau sydd o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd a all esgor ar lawer o drafodaeth.

7. Mae adrannau 39 i 41<sup>1</sup> o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau i annog pobl leol i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ac i lunio strategaeth i annog y cyfranogiad hwn a'i hadolygu'n gyson. Nid yw'r ddyletswydd statudol hon yn cynnwys awdurdodau eraill a gwmpesir gan y cod hwn ond mae egwyddorion ymgysylltu, cynnwys a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl i gyd yn arferion da y dylid eu mabwysiadu gan bob corff a gwmpesir gan y Cod hwn. Yn yr un modd, dylid nodi hefyd fod prif gynghorau ac awdurdodau parciau cenedlaethol wedi'u rhwymo gan y dyletswyddau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a bod yr egwyddorion a nodir yn y Ddeddf yn berthnasol i bob corff a gwmpesir gan y Cod hwn.

8. Mae awdurdodau'n defnyddio cyhoeddusrwydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd, ac i annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn democratiaeth yn ogystal â helpu i lywio dyfodol darparu gwasanaethau. Mae angen i awdurdodau lleol hefyd ddweud wrth y cyhoedd am y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae hyn yn rhan allweddol o fod yn sefydliad sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Mae cyhoeddusrwydd da ac effeithiol, sydd â'r nod o wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o weithgareddau awdurdod a sut i gael gafael arnynt, i'w groesawu. Ni fwriedir i'r Cod hwn annog peidio â rhoi cyhoeddusrwydd o'r fath.

9. Fodd bynnag, mae cyhoeddusrwydd yn fater sensitif mewn unrhyw amgylchedd gwleidyddol, oherwydd yr effaith y gall ei chael. Gall gwariant ar gyhoeddusrwydd fod yn sylweddol a bydd angen cydymffurfio ag ystod o ddyletswyddau statudol. Felly, mae'n hanfodol sicrhau bod penderfyniadau awdurdodau lleol am gyhoeddusrwydd yn cael eu gwneud yn briodol ac yn dryloyw, yn unol ag egwyddorion clir o ran arferion da. Diben y Cod hwn yw nodi egwyddorion o'r fath. Mae'n adlewyrchu'r confensiynau a ddylai fod yn berthnasol i'r holl gyhoeddusrwydd y telir amdano o'r pwrs cyhoeddus sy'n ymwneud â busnes a strwythur cyfansoddiadol yr awdurdod.

10. Mae'r egwyddorion a nodir isod yn cydnabod natur wleidyddol awdurdodau lleol a'r byd y maent yn gweithredu ynddo. Maent yn ystyried y ffaith y bydd rhywfaint o gyhoeddusrwydd awdurdodau lleol yn ymdrin â materion sy'n ddadleuol oherwydd amgylchiadau lleol penodol, neu oherwydd gwahaniaeth

<sup>1</sup> Daw i rym ar 5 Mai 2022 yn rhinwedd OS 2021/231

barn rhwng pleidiau gwleidyddol yn lleol neu'n genedlaethol. Nid yw'r egwyddorion yn gwahardd cyhoeddi gwybodaeth am faterion gwleidyddol sensitif neu ddadleuol, nac yn rhwystro trafodaeth gyhoeddus. Maent yn nodi'r materion y dylai awdurdod lleol eu hystyried, er mwyn diogelu'r defnydd priodol o arian cyhoeddus a diogelu'r aelodau hynny o'r cyhoedd y cyfeirir y cyhoedduswydd atynt. Mae'r egwyddorion yn berthnasol i bob math o gyhoedduswydd, ond bydd rhai agweddau yn arbennig o berthnasol i gyhoedduswydd sy'n ymdrin â materion dadleuol neu sensitif. Amcan sylfaenol y Cod yw sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol ar gyfer cyhoedduswydd.

## Cwmpas y Cod

11. Mae Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1986 yn datgan fel a ganlyn:

'2 Prohibition of political publicity.

(1) A local authority shall not publish, or arrange for the publication of, any material which, in whole or in part, appears to be designed to affect public support for a political party.

(2) In determining whether material falls within the prohibition regard shall be had to the content and style of the material, the time and other circumstances of publication and the likely effect on those to whom it is directed and, in particular, to the following matters—

(a) whether the material refers to a political party or to persons identified with a political party or promotes or opposes a point of view on a question of political controversy which is identifiable as the view of one political party and not of another;

(b) where the material is part of a campaign, the effect which the campaign appears to be designed to achieve.

(3) A local authority shall not give financial or other assistance to a person for the publication of material which the authority are prohibited by this section from publishing themselves.

12. Nid yw'r Cod hwn yn ymwneud â dehongli adran 2. Mae'n tynnu sylw at y ffactorau y dylid eu cadw mewn cof wrth wneud penderfyniadau am gyhoedduswydd sy'n ymdrin â phynciau neu faterion sy'n wleidyddol eu natur neu sydd fel arall yn ddadleuol, ond nad ydynt wedi'u gwahardd gan adran 2.

13. Mae Adran 6 o Ddeddf 1986 yn diffinio cyhoedduswydd fel unrhyw gyfathrebu, ar ba ffurf bynnag, sydd wedi'i gyfeirio at y cyhoedd yn gyffredinol neu at ran o'r cyhoedd. Felly, bydd y Cod yn berthnasol ar draws holl ystod cyfryngau cyfathrebu a gwaith awdurdodau lleol. Mae'n ymdrin â phob penderfyniad gan awdurdod lleol am gyhoedduswydd a'r rhan fwyaf o weithgareddau cysylltiadau cyhoeddus, megis ymgyrchoedd hysbysebu a thafleuni y telir amdanynt, a nawdd awdurdodau lleol i arddangosfeydd a chynadleddau, yn ogystal â chymorth i eraill gyhoeddi deunydd cyhoedduswydd.

14. Nid yw'r Cod yn berthnasol i'r dulliau y gall awdurdod lleol eu defnyddio i wneud ei farn yn hysbys pan nad yw'r rhain yn golygu cyhoeddusrwydd yn ystyr Deddf 1986.

15. Nid yw'r Cod yn effeithio ar allu awdurdodau lleol i gynorthwyo elusennau a sefydliadau gwirfoddol y mae angen iddynt gyhoeddi deunydd cyhoeddusrwydd fel rhan o'u gwaith, ond mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth roi cymorth o'r fath, ystyried yr egwyddorion y seiliwyd y Cod arnynt a'u cymhwysu yn unol â hynny.

16. Nid yw'r Cod hwn a'i gynnwys yn effeithio ar y gwaharddiad yn adran 2 o Ddeddf 1986 ar awdurdodau lleol o ran cyhoeddi deunydd y mae'n ymddangos ei fod wedi'i gynllunio i ddylanwadu ar gefnogaeth y cyhoedd i blaid wleidyddol.

17. Yn olaf, ni ddylid dehongli bod unrhyw beth yn y Cod hwn yn gymwys i unrhyw benderfyniad gan awdurdod lleol yn unol â Rhan VA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac Atodlen 12 iddi ac adran 55 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (ynghylch hawliau'r cyhoedd i gael mynediad at gyfarfodydd a dogfennau sy'n ymwneud â chyfarfodydd). Nid yw ychwaith yn gymwys i unrhyw beth sy'n ymwneud â dyletswyddau a osodir drwy reoliadau ar gyfer prif gynghorau ac a wneir o dan adran 22 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (ynghylch mynediad at wybodaeth mewn perthynas â chyfarfodydd a phenderfyniadau gweithrediaethau ac aelodau gweithredol prif gynghorau).

## Pwnc

18. Mae gan awdurdodau lleol amrywiaeth o bwerau statudol sy'n eu galluogi i gynhyrchu cyhoeddusrwydd a'i ddosbarthu'n eang, neu i gynorthwyo eraill i wneud hynny. Mae'r rhai a ddefnyddir yn gyffredin yn cynnwys y pwerau yn adrannau 111, 142, 144 a 145 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972; ond mae sawl un arall.

19. Mae rhai o'r pwerau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â swyddogaethau'r awdurdod cyhoeddi. Mae eraill yn rhoi disgresiwn mwy cyffredinol i roi cyhoeddusrwydd i faterion sydd y tu hwnt i brif gyfrifoldebau awdurdod. Er enghraifft, mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i brif gynghorau a chynghorau tref a chymuned cymwys, mae adran 142(1A) o Ddeddf 1972 yn awdurdodi awdurdodau lleol i drefnu cyhoeddi o fewn eu maes gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yn yr ardal sy'n cael eu darparu ganddynt hwy *neu* gan awdurdodau lleol eraill ac mae adran 52 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau tref a chymuned gyhoeddi adroddiad blynyddol am flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae'n ofynnol i awdurdodau parciau cenedlaethol ymgynghori'n rheolaidd ar gynllun rheoli parciau cenedlaethol a'i gyhoeddi.

20. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyhoeddi cynlluniau llesiant lleol ac mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i bob aelod etholedig o'r prif gyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol ar eu gweithgarwch.

21. Wrth ystyried y meysydd pwnc lle mae cyhoeddusrwydd i'w gyhoeddi, dylai'r cyhoeddusrwydd fod yn berthnasol i swyddogaethau'r awdurdod.

22. Wrth ystyried cynhyrchu a dosbarthu cyhoeddusrwydd, dylai awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw ddyletswyddau neu ganllawiau statudol perthnasol eraill.

## Costau

23. Mae awdurdodau lleol yn atebol i'r cyhoedd am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu gwariant, a hynny yn y lle cyntaf drwy eu gofynion cyfrifyddu ac archwilio statudol. Yn ogystal, mae adran 89 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau i adolygu eu perfformiad, gan gynnwys defnyddio eu hadnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae'n amlwg bod hon yn egwyddor gadarn i bob awdurdod.

24. Mewn rhai achosion, gall cyhoeddusrwydd gyfiawnhau ei gost yn rhinwedd yr arbedion y mae'n eu cyflawni. Yn fwy cyffredin, bydd angen ystyried pwysigrwydd y manteision na ellir eu mesur, o'u cymharu â'r defnydd arall y gellid ei wneud o'r adnoddau.

25. Wrth benderfynu a ellir cyfiawnhau natur a graddfa'r cyhoeddusrwydd arfaethedig, ac felly ei gost, bydd y materion canlynol yn berthnasol:

- a oes angen y cyhoeddusrwydd yn statudol neu a yw'n ddewisol;
- pan fo'n ofynnol yn statudol, beth yw'r diben y bydd y cyhoeddusrwydd yn ei gyflawni;
- a yw'r gwariant a ragwelir yn cyd-fynd â diben ac effaith ddisgwyliedig y cyhoeddusrwydd.

## Cynnwys ac arddull

26. Mae awdurdodau lleol yn cynhyrchu amrywiaeth o ddeunydd cyhoeddusrwydd a hyrwyddo drwy sawl math o gyfryngau cyfathrebu gan gynnwys radio, teledu, cyfryngau digidol a phrint. Mae hyn yn amrywio o wybodaeth ffeithiol am y gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod, y bwriedir iddi hysbysu defnyddwyr gwasanaethau a/neu ddenu rhai newydd, i ddeunydd sy'n angenrheidiol ar gyfer gweinyddu'r awdurdod, megis hysbysebu i recriwtio staff. Cyhoeddir cyhoeddusrwydd hefyd er mwyn esbonio neu gyfiawnhau

polisiau ac arferion yr awdurdod. Er enghraifft, y ddyletswydd yn adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i bob prif gyngor gyhoeddi ei gyfansoddiad ac arweiniad i'r cyfansoddiad, neu gyhoeddi cefndir ymgynghoriad ar drefniadau newydd ar gyfer darpariaeth ysgolion mewn ardal.

27. Dylai unrhyw gyhoeddusrwydd sy'n disgrifio polisiau a nodau'r awdurdod fod mor wrthrychol â phosibl, gan ganolbwyntio ar ffeithiau neu esboniad neu'r ddau.

28. Pan ddefnyddir cyhoeddusrwydd i roi sylwadau ar bolisiau a chynigion Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU, awdurdodau lleol eraill neu awdurdodau cyhoeddus eraill, neu i ymateb iddynt, dylai'r sylw neu'r ymateb fod yn wrthrychol, yn gytbwys, yn llawn gwybodaeth, yn amserol ac yn gywir. Dylai anelu at nodi'r rhesymau dros farn yr awdurdod ac ni ddylai fod yn ymosodiad rhagfarnllyd, afresymol na gwleidyddol ar y polisiau neu'r cynigion dan sylw nac ar y rhai sy'n eu cyflwyno.

29. Mae'n anochel weithiau y bydd cyhoeddusrwydd yn cyffwrdd â materion sy'n ddadleuol, neu lle bo dadleuon o blaid ac yn erbyn barn neu bolisiau'r awdurdod, yn enwedig o ystyried mor bwysig yw ymgynghori'n eang pryd bynnag y bydd materion perthnasol yn codi. Dylid ymdrin â chyhoeddusrwydd o'r fath yn ofalus iawn. Dylid cyflwyno'r materion yn glir, yn deg ac mewn ffordd mor syml â phosibl, er na ddylai awdurdodau orsymleiddio ffeithiau, materion na dadleuon.

30. Dylai awdurdodau lleol geisio sicrhau nad yw deunydd cyhoeddusrwydd yn achosi tramgwydd diangen. Mae hyn yn berthnasol pa bynnag gyfrwng a ddefnyddir ar gyfer y deunydd, boed yn wefannau, cyfryngau cymdeithasol, cyfryngau eraill, neu gopi caled.

31. Mae ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd gan awdurdodau lleol yn briodol mewn rhai amgylchiadau: er enghraifft fel rhan o brosesau ymgynghori lle ceisir barn leol, neu i hyrwyddo'r defnydd effeithiol ac effeithlon o wasanaethau a chyfleusterau lleol, neu i ddenu twristiaid neu fuddsoddiad. Gall ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd hefyd fod yn ffordd briodol o ddylanwadu ar ymddygiad neu agweddau'r cyhoedd ar faterion fel iechyd, diogelwch, atal troseddau neu gyfle cyfartal.

32. Fodd bynnag, mae defnyddio adnoddau cyhoeddus ar gyfer rhai mathau o ymgyrchoedd y bwriedir iddynt ddwyn perswâd ar bobl yn gallu peri pryder dilys. Gall ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd fod yn ffordd briodol o sicrhau bod y gymuned leol yn cael gwybodaeth ddigonol am fater sy'n ymwneud â swyddogaeth yr awdurdod lleol ac am bolisiau'r awdurdod mewn perthynas â'r swyddogaeth hon a'r rhesymau drostynt.

33. Fodd bynnag, ni ddylai awdurdodau lleol, yn yr un modd ag awdurdodau cyhoeddus eraill, ddefnyddio arian cyhoeddus i gynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd sydd â'r prif ddiben o berswadio'r cyhoedd i arddel barn benodol ar fater polisi. Wrth ymgynghori â'r cyhoedd ar bolisi neu gynigion sy'n effeithio ar



y gymuned, mae angen cyflwyno barn gytbwys, a dylai'r dystiolaeth ategol ar gyfer y polisi neu'r cynnig fod yn glir i'r cyhoedd.

34. Pan gynhyrchir deunydd, dylid cymryd gofal arbennig i sicrhau ei fod yn ddiamwys, yn ddealladwy, ac yn annhebygol o achosi pryder neu anghysur diangen i'r rhai sy'n ei ddarllen, yn ei weld neu'n gwrando arno. Dylai unrhyw ddeunydd a gynhyrchir fod yn unol â Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a dylid ei gynhyrchu yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r safonau perthnasol a bennir gan Weinidogion Cymru o dan Ran 4 o'r Mesur.

35. Ni ddylai awdurdodau lleol ymgymryd ag unrhyw wariant ar wasanaethau lobiwyr i gyhoeddi deunydd y bwriedir iddo ddylanwadu ar swyddogion cyhoeddus, Aelodau o'r Senedd, Aelodau Seneddol, pleidiau gwleidyddol, Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU i arddel safbwynt penodol ar unrhyw fater. Ni ddylai awdurdodau lleol ymgymryd ag unrhyw wariant ar ddarparu stondinau neu arddangosfeydd mewn cynadleddau pleidiau gwleidyddol at ddibenion cyhoedduswydd y bwriedir iddo ddylanwadu ar aelodau pleidiau gwleidyddol i arddel safbwynt penodol ar unrhyw fater.

36. Yn gyffredinol, mae'n dderbyniol i awdurdodau lleol gynnal cyhoedduswydd, megis blog, sydd ei hun yn cynnwys dolenni at safleoedd allanol nad oes gan yr awdurdod lleol reolaeth drostynt, ac na fyddai'r cynnwys yn cydymffurfio â'r cod hwn. Nid yw hyn yn gyfystyr â helpu unrhyw berson i gyhoeddi deunydd na chaniateir i awdurdodau lleol ei gyhoeddi. Mae hefyd yn dderbyniol i gyhoedduswydd sy'n cynnwys deunydd a baratowyd gan drydydd partiön ac a gynhelir gan awdurdodau lleol gynnwys logos pleidiau gwleidyddol neu sefydliadau eraill y mae'r trydydd partiön yn gysylltiedig â hwy, ar yr amod na fwriedir i'r deunydd ddylanwadu ar gymorth ar gyfer plaid wleidyddol neu unigolyn penodol.

37. Gall cyhoedduswydd a gynhyrchir neu a gynhelir gan awdurdodau lleol hefyd gynnwys logo sy'n gysylltiedig ag aelod penodol o'r awdurdod, megis maer a etholwyd yn uniongyrchol, neu arweinydd neu gadeirydd yr awdurdod. Ni ddylai deunydd cyhoedduswydd a gynhyrchir gan awdurdodau lleol sy'n ymwneud ag aelod penodol geisio effeithio ar gefnogaeth gyhoeddus i'r unigolyn hwnnw. Pan fydd awdurdodau lleol yn rhoi cymorth i drydydd partiön i gyhoeddi deunydd cyhoedduswydd, dylent sicrhau bod yr egwyddorion yn y cod hwn yn cael eu dilyn gan y rhai sy'n derbyn y cymorth hwnnw.

38. Mae adran 4(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i gynnwys y cod hwn wrth wneud unrhyw benderfyniad am gyhoedduswydd. Mae Adran 6 o'r Ddeddf yn diffinio cyhoedduswydd fel unrhyw gyfathrebu, ar ba ffurf bynnag, a gyfeirir at y cyhoedd yn gyffredinol neu at ran o'r cyhoedd. Felly, mae'r cod yn berthnasol i bob penderfyniad gan awdurdodau lleol sy'n ymwneud ag ymgyrchoedd hysbysebu a thafleuni y telir amdanynt, cyhoeddi papurau newydd a thafleuni newyddion am ddim a chynnal a chadw gwefannau – gan gynnwys cynnal deunydd a grëir gan drydydd partiön.

## Lledaenu gwybodaeth

39. Prif ddibenion cyhoeddusrwydd awdurdodau lleol yw cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod a'r swyddogaethau y mae'n eu cyflawni er mwyn i bobl leol allu lleisio barn ar sail gwybodaeth am faterion sy'n effeithio arnynt; esbonio'r rhesymau dros bolisiau a blaenoriaethau penodol; a gwella atebolrwydd lleol.

40. Dylai'r wybodaeth a'r cyhoeddusrwydd a gynhrychir gan yr awdurdod fod ar gael i bawb y mae arnynt eu heisiau neu eu hangen. Ni ddylai awdurdodau lleol wahaniaethu o blaid, nac yn erbyn, personau neu grwpiau wrth lunio a dosbarthu deunydd am resymau nad ydynt yn gysylltiedig ag effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyhoeddi'r deunydd cyhoeddusrwydd. Rhan allweddol o bennu'r dull o ymdrin â chyhoeddusrwydd yw pennu'r sianel fwyaf cost-effeithiol, ond hefyd sicrhau nad yw hyn yn gwahaniaethu'n weithredol yn erbyn grwpiau penodol.

41. Dylai cyhoeddusrwydd am awdurdodau lleol a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu fod ar gael am ddim i unrhyw un sy'n dymuno cael gwybodaeth o'r fath mewn fformat sy'n hygyrch ac yn ddealladwy i'r person sy'n gwneud y cais neu i unrhyw grŵp penodol y darperir gwasanaethau ar ei gyfer. Dylai holl gyhoeddusrwydd awdurdodau lleol nodi'n glir ac yn ddiamwys mai cynnyrch yr awdurdod lleol ydyw. Dylai deunydd printiedig, gan gynnwys unrhyw gylchlythyrau, taflenni newyddion neu gyhoeddiadau tebyg a gyhoeddir gan yr awdurdod lleol, nodi hyn ar dudalen flaen y cyhoeddiad.

42. Dylai unrhyw ddeunydd a gynhrychir roi sylw i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a dylid ei gynhyrchu yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r safonau perthnasol a bennir gan Weinidogion Cymru o dan Ran 4 o'r Mesur. Dylai gydnabod amrywiaeth cymunedau a galluogi pobl o bob oed a chefnidir i ymgysylltu â'r deunydd. Dylai awdurdodau lleol ystyried sut y mae unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd y maent yn ei gyhoeddi yn cyfrannu at y nod o sicrhau Cymru fwy cyfartal yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

43. Os yw'n bwysig i wybodaeth gyrraedd cynulleidfa darged benodol, dylid ystyried defnyddio rhwydweithiau cyfathrebu cyrff eraill, er enghraifft mudiadau gwirfoddol, a thrwy ddolenni ar safleoedd rhyngwyd cyrff eraill.

## Hysbysebu

44. Gall hysbysebu (cyfryngau y telir amdanynt), hefyd fod yn ffordd gost-effeithiol o roi cyhoeddusrwydd i weithgareddau awdurdod lleol.

45. Nid yw hysbysebion fel arfer yn debygol o fod yn ffordd briodol o esbonio polisi neu o wneud sylwadau ar gynigion, gan fod hysbyseb yn ôl ei natur yn crynhoi gwybodaeth, yn cywasgu materion a dadleuon, ac yn marchnata barn

a safbwyntiau.

46. Mae hysbysebu trwy gyfrwng sy'n cwmpasu ardal sydd gryn dipyn yn ehangach nag ardal yr awdurdod yn ffordd briodol weithiau o ddenu pobl i'r ardal i ddefnyddio ei chyfleusterau.

47. Gall defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu a hysbysebu fod yn fuddiol hefyd oherwydd eu bod yn cyrraedd yn bell, a gallai hyn hefyd fod yn dda ar gyfer codi ymwybyddiaeth. Gall fod mantais iddynt o ran cost hefyd, o'u cymharu â dulliau hysbysebu traddodiadol.

48. Dylai unrhyw ddeunydd hysbysebu a gynhyrchir gan awdurdod lleol neu a gynhwysir yn un o'i gyhoeddiadau sy'n cyrraedd y cyhoedd yn ddiodyn, gyfeirio'n glir at ei darddiad.

49. Wrth ystyried hysbysebu mewn cyhoeddiad a gynhyrchir gan sefydliad gwirfoddol, diwydiannol neu fasnachol, yr unig sail dros benderfynu gwneud hynny fyddai oherwydd ei fod yn ddull effeithiol ac effeithlon o gyflawni'r nod o ran cyhoeddusrwydd.

50. Ni ddylai awdurdodau lleol byth ddefnyddio hysbysebu fel ffordd o roi cymorth ariannol i unrhyw gyhoeddiad sy'n gysylltiedig â phlaid wleidyddol.

## **Hysbysebu i recriwtio**

51. Yn eu polisïau cyflogi staff, mae awdurdodau lleol wedi cynnal y traddodiad o wasanaeth cyhoeddus sy'n ddiuedd yn wleidyddol. Dylai eu cyhoeddusrwydd recriwtio adlewyrchu'r traddodiad hwn, a'r ffaith y disgwylir i staff awdurdodau lleol wasanaethu'r awdurdod cyfan, beth bynnag fo'i gyfansoddiad, o bryd i'w gilydd.

52. Dylai cynnwys deunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer recriwtio a'r cyfryngau a ddewisir ar gyfer hysbysebu swyddi gwag fod yn unol â'r amcan o gynnal statws gwleidyddol annibynnol staff awdurdodau lleol.

53. Ni ddylid hysbysebu am staff mewn cyhoeddiadau pleidiol wleidyddol.

## **Cynghorwyr unigol**

54. Gall cyhoeddusrwydd ynglŷn â chynghorwyr unigol gynnwys eu manylion cyswllt busnes (er, fel mater o ddiogelwch personol, ni ddylai gynnwys cyfeiriadau cartref personol aelodau), eu rôl yn y Cyngor a'u swyddfeydd a'u cyfrifoldebau. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth am gynigion cynghorwyr unigol, eu penderfyniadau a'u hargymhellion os yw hyn yn berthnasol i'w safle a'u cyfrifoldebau o fewn yr awdurdod (gan gynnwys eu rôl bosibl fel aelod o awdurdod

parc cenedlaethol). Dylai pob cyhoeddusrwydd o'r fath fod yn wrthrychol ac yn esboniadol, ac er y gall gydnabod y rhan a chwaraeir gan gynghorwyr unigol fel deiliaid swyddi penodol yn yr awdurdod, dylid osgoi personoli materion neu greu delweddau personol. Mae'n dderbyniol i awdurdodau lleol roi cyhoeddusrwydd i'r gwaith a wneir gan gynghorwyr unigol os yw hynny'n ymwneud â strategaethau'r awdurdod, ac o dan rai amgylchiadau gall cynghorydd unigol ddod yn 'wyneb' ymgyrch leol. Fodd bynnag, dylai deunydd cyhoeddusrwydd nodi'n glir bob amser pan nad yw aelod unigol yn cyflwyno barn yr awdurdod lleol yn ei gyfanrwydd.

55. Ni ddylai cyhoeddusrwydd fod yn bleidiol wleidyddol ac ni ddylai fod o natur a fyddai'n ei gwneud yn hawdd ei gamddehongli fel cyhoeddusrwydd o'r fath. Fodd bynnag, dylid cynnwys gwybodaeth ar wefannau cynghorau sy'n egluro cysylltiadau gwleidyddol cynghorydd, boed hynny â phlaid wleidyddol neu grŵp gwleidyddol o fewn y cyngor neu pan na fo gan y cynghorydd unrhyw gysylltiad gwleidyddol o gwbl. Gall fod yn briodol disgrifio polisiau a gyflwynir gan gynghorydd unigol sy'n berthnasol i'w swydd a'i gyfrifoldebau o fewn yr awdurdod, a chyflwyno hefyd gyfiawnhad y cynghorydd i amddiffyn y polisiau hynny. Fodd bynnag, ni ddylid gwneud hynny mewn dull pleidiol wleidyddol, drwy ddefnyddio sloganau gwleidyddol, drwy argymhell yn benodol bolisiau plaid benodol na thrwy ymosod yn uniongyrchol ar bolisiau a barn pleidiau, grwpiau neu unigolion eraill.

## **Adroddiadau blynyddol cynghorwyr (Prif Gynghorau)**

56. Mae adran 5 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn darparu bod yn rhaid i brif gynghorau wneud trefniadau i bob aelod lunio adroddiad blynyddol am eu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn. Mae gan y prif gyngor ddyletswydd i gyhoeddi'r adroddiadau hyn, er y gall osod amodau o ran y cynnwys, gan roi sylw i unrhyw ganllawiau gan Weinidogion Cymru. Ceir canllawiau ar wahân ar y mater hwn ac mae y tu allan i gwmpas y Cod hwn.

## **Ffilmio a darlledu cyfarfodydd cynghorau**

57, Erbyn hyn, mae cymdeithas yn disgwyl cael llawer mwy o fynediad at wybodaeth nag yn y gorffennol, yn enwedig mewn perthynas â gweithdrefnau penderfynu ei chyrrff cyhoeddus. Dylid croesawu hyn fel cyfle i gyfathrebu'n uniongyrchol â'r cyhoedd.

58. Mae Adran 46 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau wneud darllediadau electronig o gyfarfodydd llawn y cyngor ac mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ehangu'r mathau o gyfarfodydd sydd i'w darlledu a'r awdurdodau y mae'r gofyniad yn gymwys iddynt.

59. Fodd bynnag, anogir pob awdurdod lleol i wneud trefniadau i'w drafodion fod yn fwy hygyrch i'r cyhoedd drwy eu galluogi i gael eu darlledu. Gellir gwneud hyn drwy gael ffrwd fyw neu recordiadau ar wefan yr awdurdod ei hun neu drwy ryw

gyfrwng arall ar y we.

## Etholiadau, refferenda a deisebau

60. Yn ystod y cyfnod rhwng cyhoeddi hysbysiad am etholiad a'r etholiad ei hun, dylid atal pob math o gyhoeddusrwydd rhagweithiol, gan gynnwys cyfrifon cyfryngau cymdeithasol unigol a gaiff eu rhedeg gan swyddogion neu aelodau etholedig, a allai gael eu hystyried gan rai fel eu bod yn rhoi mantais etholiadol i ymgeiswyr a gwleidyddion eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r etholiad.

61. Gall prif gynghorau gyhoeddi gwybodaeth sy'n ofynnol o dan Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021, Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021, unrhyw gyfuniad ohonynt neu fel sy'n ofynnol gan unrhyw ddeddfwriaeth etholiadol arall. Gall prif gynghorau hefyd gyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â'r etholiad neu'r is-etholiad at ddibenion darparu gwybodaeth neu ffeithiau yn unig, megis dyddiad yr etholiad, sut i drefnu pleidlais bost a lleoliadau gorsafoedd pleidleisio. Fodd bynnag rhaid i bob gwybodaeth ffeithiol sy'n ymwneud ag etholiad gael ei chyhoeddi ar y ffurf a bennir gan y ddeddfwriaeth berthnasol neu mewn ffordd nad yw'n rhoi blaenoriaeth i wybodaeth sy'n gysylltiedig ag unrhyw ymgeisydd, ymgeiswyr neu blaid wleidyddol. Gall awdurdodau eraill gyfeirio at y deunydd hwn ar eu gwefannau eu hunain.

62. Fodd bynnag, ni ddylai cyhoeddusrwydd a gynhyrchir gan y cyngor yn ystod y cyfnod hwn ddelio â materion dadleuol ac ni ddylai adrodd am safbwyntiau, cynigion nac argymhellion mewn modd sy'n eu cysylltu ag aelodau unigol neu grwpiau o aelodau a allai ennill mantais etholiadol o ganlyniad. Mae'r hyn a olygir wrth fater dadleuol yn dibynnu i ryw raddau ar yr amgylchiadau lleol, ond yn gyffredinol, mae'n debygol y byddant yn cynnwys, ond heb fod wedi'u cyfyngu, i faterion sy'n rhannu barn y cyhoedd, yn destun dadl proffil uchel am gyfnod hir ac yn denu sylw yn y wasg a/neu yn faterion lle caiff cyllid neu gcontractau mawr eu dyfarnu.

63. Efallai y bydd angen rhoi'r gorau i gynnal deunyddiau a gynhyrchir gan drydydd partïon, neu gau fforymau cyhoeddus, yn ystod y cyfnod hwn er mwyn osgoi mynd yn groes i gyfyngiadau cyfreithiol.

64. Mae hefyd yn dderbyniol i'r awdurdod ymateb, o dan amgylchiadau priodol, i ddigwyddiadau ac i ymholiadau dilys am wasanaethau, ar yr amod bod eu hatebion yn ffeithiol ac nad ydynt yn ffafriol i blaid wleidyddol. Dylai aelodau sydd â swyddi gwleidyddol neu ddinesig allweddol allu gwneud sylwadau mewn argyfwng neu lle mae gwir angen ymateb i ddigwyddiad pwysig sydd y tu allan i reolaeth yr awdurdod. Ni ddylai digwyddiadau rhagweithiol a drefnir yn ystod y cyfnod hwn gynnwys aelodau sy'n debygol o fod yn sefyll mewn etholiad.

65. Mae angen i awdurdodau lleol fod yn ofalus hefyd pan fydd ymgyrch ar y gweill i ddylanwadu ar bobl leol mewn perthynas â refferendwm i benderfynu a ddylid cael maer a etholir yn uniongyrchol. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd) yn gwahardd awdurdod rhag ymgymryd ag unrhyw wariant er mwyn:

- cyhoeddi deunydd sy'n ymddangos fel pe bai wedi'i gynllunio i ddylanwadu ar bobl leol wrth iddynt benderfynu a ddylid llofnodi deiseb yn gofyn am refferendwm ar gynigion ar gyfer maer etholedig;
- cynorthwyo unrhyw un arall i gyhoeddi deunydd o'r fath;
- dylanwadu neu gynorthwyo eraill i ddylanwadu ar bobl leol wrth iddynt benderfynu a ddylid llofnodi deiseb ai peidio;

66. Dylai'r cyhoeddusrwydd o dan yr amgylchiadau hyn gael ei gyfyngu i gyhoeddi manylion ffeithiol a gyflwynir yn deg am y cynnig yn y ddeiseb ac i esbonio trefniadau presennol y cyngor. Ni ddylai awdurdodau lleol gynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd sydd â'r prif ddiben o berswadio'r cyhoedd i feddu ar farn benodol ynghylch deisebau yn gyffredinol nac ynghylch cynnig penodol.

67. Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod unrhyw gyhoeddusrwydd am refferendwm o dan Ran II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") naill ai cyn neu yn ystod cyfnod y refferendwm yn ffeithiol gywir ac yn wrthrychol. Mae cyfnod y refferendwm yn golygu'r cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad yr anfonir cynigion o dan Ran II o Ddeddf 2000 at Weinidogion Cymru ac sy'n dod i ben ar ddyddiad y refferendwm.

68. Ni ddylai fod modd i gyhoeddusrwydd gan y prif gyngor nac unrhyw awdurdod arall gael ei ystyried yn gyhoeddusrwydd sy'n ceisio dylanwadu ar y cyhoedd o ran cefnogi neu wrthwynebu cynnig y refferendwm, ac ni ddylai gysylltu'r gefnogaeth na'r gwrthwynebiad ag unrhyw unigolyn neu grŵp. Rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau penodol ar weithgareddau cyhoeddusrwydd sy'n ofynnol gan reoliadau o dan adran 45 o Ddeddf 2000.

69. Mae ystyriaethau tebyg yn berthnasol pan fydd pleidlais gymunedol yn cael ei chynnal. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod unrhyw ddeunydd y mae'n ei gyhoeddi wedi'i gyfyngu i wybodaeth ffeithiol ac nad yw'n trafod y ddadl ar y mater sy'n destun pleidlais.

70. Mae adran 42 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau i sefydlu cynllun deisebau ac i roi sylw i unrhyw ganllawiau y gallai Gweinidogion Cymru eu cyhoeddi am gynlluniau o'r fath. Unwaith eto, dylai unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd fod yn ffeithiol ac ni ddylid bod modd tybio ei fod yn dylanwadu ar y broses ddeisebu mewn unrhyw ffordd. Dylai ymateb y prif gyngor i'r cynllun deisebu gydymffurfio â'r Cod hwn.

## Cymorth i eraill ar gyfer cyhoeddusrwydd

71. Mae'r egwyddorion a nodir uchod yn ymwneud â chyhoeddusrwydd a gyhoeddir gan awdurdodau lleol. Dylent hefyd gael eu hystyried gan awdurdodau lleol mewn penderfyniadau am gymorth i eraill i gyhoeddi deunydd cyhoeddusrwydd. Ym mhob penderfyniad o'r fath, dylai awdurdodau lleol, i'r graddau sy'n briodol:

- ymgorffori egwyddorion perthnasol y Cod mewn canllawiau a gyhoeddir ar gyfer ymgeiswyr am grantiau;
- nodi bod glynu wrth ganllawiau yn un o amodau'r grant neu gymorth arall;
- ymgymryd â gwaith monitro i sicrhau bod y canllawiau'n cael eu dilyn.

72. Gall fod yn briodol i awdurdodau lleol gynorthwyo cyrff cyhoeddus eraill, elusennau neu sefydliadau gwirfoddol drwy drefnu i bamffledi neu ddeunydd arall a gynhrychir ac y telir amdano gan y sefydliad fod ar gael i'r cyhoedd ei gasglu mewn lleoliadau addas, megis llyfrgelloedd, neu i ddeunydd gael ei gadw ar wefan yr awdurdod.

73. Ni ddylai deunydd o'r fath dramgwyddo yn erbyn unrhyw ddarpariaeth gyfreithiol a dylai unrhyw gyfleuster o'r fath fod ar gael ar sail deg a chyfartal.

Gosodwyd y Canllawiau hyn gerbron Senedd Cymru yn unol ag Adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1986 a Rheol Sefydlog 27.14 o Reolau Sefydlog Senedd Cymru. Senedd Cymru.

Rebecca Evans  
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

15 Mawrth 2022